Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Prosiectau ynni, yr amgylchedd a chefn gwlad

## Canllaw i etholwyr

Mehefin 2025



www.ymchwil.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ymchwil y Senedd**
**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6295**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Gwefan: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Prosiectau ynni, yr amgylchedd a chefn gwlad
## - canllaw i etholwyr

Mehefin 2025

**Awduron:**
Dr Katy Orford

**Trosolwg o'r papur:**
Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at gefnogaeth a gwybodaeth i etholwyr sydd â diddordeb mewn prosiectau amgylcheddol. Mae'n rhestru ffynonellau cymorth ariannol sy'n ymwneud â newid hinsawdd, ynni, dŵr, datblygu gwledig a gweithredu ar natur yng Nghymru. Nid yw'r wybodaeth yn y canllaw hwn yn honni ei bod yn gyflawn, ac efallai y bydd ffynonellau cyllid pellach ar gael.

# Cynnwys

Sefydliadau / rhaglenni sy'n darparu cyngor a chymorth ................1

Cyfoeth Naturiol Cymru ................ 1
Cyswllt Amgylchedd Cymru ................ 1
Partneriaethau Natur Lleol ................ 2
Ffederasiwn y Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol yng Nghymru . 3
Rhwydwaith Gwledig Cymru ................ 3
Y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol ................ 4

Grantiau / ffynonellau cyllid ................ 5

Ynni ................ 5
Gwobrau Ashden ................ 5
Cynllun Uwchraddio Boeleri ................ 5
Yr Ymddiriedolaeth Garbon ................ 5
Grantiau ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan ................ 6
Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO) ................ 6
Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ................ 7
Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr ................ 7
Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ................ 7
Cynllun Cartrefi Clyd Nyth Llywodraeth Cymru ................ 8



Yr amgylchedd a chefn gwlad ................ 9

Cynlluniau buddsoddi gwledig Llywodraeth Cymru ................ 9
Grantiau/rhaglenni Llywodraeth Cymru er mwyn i gymunedau gefnogi natur. ................ 9
Gwobr Biffa ................ 9
Sefydliad Garfield Weston ................ 10
Ymddiriedolaeth Elusennol Jephcott ................ 11
Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ................ 11
Ymddiriedolaeth Elusennol Marsh ................ 11
Sefydliad Matthew Good ................ 12
Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm ................ 12
Ymddiriedolaeth Naturesave ................ 14
Sefydliad Grantiau Bach Rufford ................ 14
Ymddiriedolaethau Elusennol Teulu Sainsbury ................ 14
Ymddiriedolaeth Arddwriaethol Stanley Smith (DU) ................ 15
Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Veolia ................ 16
Sefydliad Waterloo ................ 16
Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru ................ 16

Cymorth gan awdurdodau lleol ................ 18

Cynghorau gwirfoddol sirol ................ 21





# Sefydliadau / rhaglenni sy'n darparu cyngor a chymorth

## Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella mewn ffordd gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol. Mae ei gyfrifoldebau yn cynnwys addysgu, galluogi a chynghori diwydiant, y sector gwirfoddol a'r cyhoedd yn ehangach ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac adnoddau naturiol.

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig grantiau i awdurdodau lleol, sefydliadau amgylcheddol a chyrff gwirfoddol. Cynigir grantiau i ddarparu prosiectau sydd o fudd i bobl a bywyd gwyllt. Cynigir grantiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd i sefydliadau a grwpiau sydd â statws elusen gofrestredig sy'n gwneud cais.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** 0300 065 3000
**E-bost:** **enquiries@naturalresourceswales.gov.uk neu NRW.grants@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**Gwefan:** **www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk https://www.naturalresourceswales.gov.uk/splash?orig=/&lang=cy**
**X:** **@NatResWales**

## Cyswllt Amgylchedd Cymru

Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yw'r corff ambarél ar gyfer sefydliadau amgylcheddol a chyrff cefn gwlad anllywodraethol yng Nghymru. Mae'n rhwydwaith, sy'n weithredol mewn amrywiaeth o feysydd polisi, a dyma'r cyswllt swyddogol rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol (eNGO) yng Nghymru.

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru:

- yn fecanwaith a fframwaith i helpu cyrff anllywodraethol amgylcheddol Cymru i wireddu amcanion cyffredinol;

- yn llais dros y mudiad amgylcheddol yng Nghymru;
- yn ffordd i gyrff anllywodraethol amgylcheddol a llywodraeth gyfathrebu a chynnal deialog; ac
- yn ddarparwr gwybodaeth.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 02920 497 509**
**Ebost: enquiry@waleslink.org**
**Gwefan: www.waleslink.org/cy**
**X:@WalesLink**

## Partneriaethau Natur Lleol

Nod Prosiect Partneriaethau Natur Lleol Cymru yw llunio rhwydwaith adfer natur ledled Cymru, gan ymgysylltu â phobl, cymunedau, busnesau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar ffurf camau gweithredu ymarferol a chynllunio strategol ar gyfer Cymru wydn a chyfoethog o ran natur.

Mae'n gynllun parhaus a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gydlynir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys pob awdurdod lleol a Pharc Cenedlaethol yng Nghymru, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Canolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol (LERC).

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 0300 111 0124**
**E-bost: lnpcymru@wcva.cymru**
**Gwefan: https://lnp.cymru/Hafan**
**X: @lnpcymru**

## Cyswllt Ffermio

Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cymorth a chyngor diduedd, annibynnol i bobl sy'n cychwyn, yn rhedeg ac yn tyfu busnesau fferm neu goedwigaeth yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu, ymysg gwasanaethau eraill, gynllun mentora, gweminarau, a hyfforddiant wedi'i ariannu neu â chymhorthdal.



**Canllaw i etholwyr:** Prosiectau ynni, yr amgylchedd a chefn gwlad

Gall busnesau sy'n bodloni'r **meini prawf cymhwysedd** gofrestru ar wefan Cyswllt Ffermio i gael mynediad at yr holl wasanaethau.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 08456 000 813**
**E-bost: Ffurflen ymholiad**
**Gwefan: https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy**
**X:@FarmingConnect**

## Ffederasiwn y Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol yng Nghymru

Ffederasiwn y Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol yng Nghymru yw cangen Cymru o elusen gofrestredig sy'n ceisio cynorthwyo, cynrychioli a hyrwyddo ffermydd, gerddi, rhandiroedd a mannau gwyrdd eraill a reolir gan y gymuned.

Mae'r Ffederasiwn yn cynnig gwybodaeth a chyngor ar bob agwedd ar ffermydd dinesig a reolir gan y gymuned a garddio cymunedol.

Mae'r **wefan yn cynnwys tudalen benodol** ar gyfer nodi'r cymorth sydd ar gael i grwpiau ffermio a garddio cymunedol yng Nghymru.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 02920 225942**
**E-bost: wales@farmgarden.org.uk**
**Gwefan: www.farmgarden.org.uk/cy**

## Rhwydwaith Gwledig Cymru

Fforwm yw Rhwydwaith Gwledig Cymru i helpu i gyfnewid arbenigedd ym maes datblygu gwledig. Mae'n darparu cyngor a chymorth, yn cysylltu busnesau, grwpiau cymunedol ac eraill, ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyllido

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 03000 6 03000**
**E-bost: ruralnetwork@gov.wales**
**Gwefan: businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy**

**X:**@WalesRuralNet

## Y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol

Elusen gofrestredig yw'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol sy'n cefnogi ac yn cynrychioli cymunedau ac unigolion sy'n wynebu risg o lifogydd, drwy:

- helpu pobl i baratoi ar gyfer llifogydd er mwyn atal llifogydd neu liniaru ar eu heffeithiau;
- helpu pobl i roi trefn ar eu bywydau unwaith eto ar ôl dioddef llifogydd; ac
- ymgyrchu ar ran cymunedau sy'n wynebu risg o lifogydd a gweithio gyda llywodraethau ac asiantaethau i sicrhau eu bod yn datblygu safbwynt sy'n ystyriol o'r gymuned.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 01299 403055**
**Gwefan:** The National Flood Forum
**E-bost:** info@floodforum.org.uk
**X:**@NatFloodForum

## Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad annibynnol yw Cymorth Cynllunio Cymru sy'n helpu unigolion a chymunedau ledled Cymru i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau, yn dibynnu ar **gymhwysedd,** fel cyflwyno hyfforddiant cynllunio, datblygu canllawiau, a llinell gymorth am ddim ar gyngor cynllunio.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 02920 625 004**
**E-bost:** Ffurflen ymholiad
**Gwefan:** planningaidwales.org.uk/?lang=cy



**Canllaw i etholwyr:** Prosiectau ynni, yr amgylchedd a chefn gwlad

# Grantiau / ffynonellau cyllid

## Ynni

Mae'r adran hon yn rhestru grantiau a ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig ag ynni, fel cynyddu effeithlonrwydd ynni neu dechnolegau carbon isel.

## Gwobrau Ashden

Gall mentrau cymdeithasol yn y DU a sefydliadau dielw eraill sy'n darparu ynni cynaliadwy neu brosiectau effeithlonrwydd ynni lleol wneud cais am gyfle i ennill gwobr ariannol o hyd at £25,000.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 020 7410 7023**
**Gwefan:** https://ashden.org/awards/
**E-bost:** info@ashden.org
**X:**@Ashden_org

## Cynllun Uwchraddio Boeleri

Mae'r Cynllun Uwchraddio Boeleri (BUS) yn darparu grantiau hyd at £7,500 tuag at gost disodli systemau gwresogi tanwydd ffosil (fel boeleri nwy) gyda phympiau gwres neu foeleri biomas. Mae cartrefi ac adeiladau annomestig yng Nghymru a Lloegr yn gymwys ar gyfer y cynllun, a weinyddir gan Ofgem, y rheoleiddiwr ynni.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 0330 053 2006**
**Gwefan:** https://www.ofgem.gov.uk/environmental-and-social-schemes/boiler-upgrade-scheme-bus
**E-bost:**BUS.enquiry@ofgem.gov.uk

## Yr Ymddiriedolaeth Garbon

Sefydliad yw'r Ymddiriedolaeth Garbon sy'n rhoi cyngor a chymorth ariannol i helpu busnesau a'r sector cyhoeddus i gynyddu enillion busnes drwy leihau allyriadau

carbon, arbed ynni a masnacheiddio technoleg carbon isel.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 0207 1707000**
**Gwefan:** **www.carbontrust.com**
**X:@TheCarbonTrust**

## Grantiau ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan

Mae Llywodraeth y DU yn darparu amrywiaeth o grantiau tuag at osod pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan. Mae rhentwyr, perchnogion fflatiau, ac aelwydydd sydd â lle parcio ar y stryd yn gymwys i gael grant o £350. Gall busnesau, gweithleoedd, landlordiaid, a sefydliadau addysg a ariennir gan y wladwriaeth dderbyn grantiau mwy.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Gwefan:** **www.gov.uk/guidance/electric-vehicle-chargepoint-grants**

## Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO)

Cynllun gan Lywodraeth y DU a ariennir gan gyflenwyr ynni yw Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO) sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon. Mae ei fersiwn gyfredol (ECO4) i fod i barhau hyd 31 Mawrth 2026. Gall perchnogion tai a thenantiaid sy'n derbyn rhai budd-daliadau fod yn gymwys i gael asesiad ôl-osod am ddim a gosod mesurau i leihau cost gwresogi eu cartref. Caiff y cynllun ei ariannu a'i ddarparu gan y cwmnïau ynni, a'i oruchwylio gan Ofgem, y rheoleiddiwr ynni. Gall ymgeiswyr am y cynllun wneud cais drwy unrhyw gyflenwr ECO sydd wedi ymrwymo iddo.

Gall cwmnïau ynni, awdurdodau lleol, a Llywodraeth Cymru hefyd gyfeirio aelwydydd incwm isel ac agored i niwed at elfen o'r cynllun, sef y ECO4 Flex, sydd â chymhwysedd ehangach na chynllun ECO4.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Canllawiau ar y Cynllun:** **www.ofgem.gov.uk/environmental-and-social-schemes/energy-company-obligation-eco**
**Rhestr o gysylltiadau cyflenwyr Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO):** **www.ofgem.gov.uk/environmental-and-social-schemes/energy-company-obligation-eco/contacts-guidance-and-resources/eco-supplier-contact-details**



**Canllaw i etholwyr:** Prosiectau ynni, yr amgylchedd a chefn gwlad

## Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Sefydliad annibynnol yw'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, sy'n helpu pobl, busnesau a sefydliadau cymunedol i arbed ynni a lleihau allyriadau carbon.  Caiff ei ariannu gan Lywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig a'r sector preifat ac mae'n gweithredu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** **energy-advice@est.org.uk**
**Gwefan:** **www.energysavingtrust.org.uk**
**X:** **@YmddiriedolaethYnni**

## Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr

Mae'r cynllun hwn gan Lywodraeth y DU yn darparu inswleiddio waliau ceudod a llofft am ddim neu am gost isel i gartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael ym Mandiau Treth Gyngor A i E. Fe'i darperir gan gyflenwyr ynni ac mae ar agor i berchnogion tai, landlordiaid a thenantiaid.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 0800 098 7950**
**Gwefan:** **www.gov.uk/apply-great-british-insulation-scheme**

## Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn cynnig cefnogaeth i helpu'r sector cyhoeddus a'r sector ynni cymunedol yng Nghymru i ddatblygu eu cynlluniau ynni adnewyddadwy eu hunain.  Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth technegol, ariannol ac arbenigol ar gyfer prosiectau ynni i sicrhau arbedion cost, creu incwm a chynyddu'r buddion sy'n cael eu cadw yng Nghymru.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:**

**Gwefan:**  **Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru**
**E-bost:** **ymholiadau@gwasanaethynni.cymru**
**X:** **@gwasanaeth_ynni**

## Cynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru Llywodraeth Cymru

Mae Cartrefi Gwyrdd Cymru yn cefnogi perchnogion tai cymwys i wneud uwchraddiadau effeithlonrwydd. Fe'i rheolir gan Fanc Datblygu Cymru, ac mae'n cynnig arweiniad arbenigol, benthyciadau di-log, a grantiau ar gyfer mesurau ynni, gan gynnwys systemau gwresogi, paneli solar, ac inswleiddio.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 0808 808 2244**
**Gwefan: https://developmentbank.wales/cy/cartrefi-gwyrdd-cymru**

## Cynllun Cartrefi Clyd Nyth Llywodraeth Cymru

Mae cynllun Nyth yn ariannu gwelliannau effeithlonrwydd ynni i aelwydydd cymwys. Mae'n cynnig cyngor diduedd am ddim yn ogystal â gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim. Gall y rhain gynnwys systemau gwresogi, inswleiddio a phaneli solar. Mae Nyth yn agored i bobl sy'n berchen ar eu cartref neu'n ei rentu'n breifat, sy'n derbyn budd-dal prawf modd neu'n byw mewn aelwyd incwm isel, ac sydd naill ai â chyflwr iechyd cronig, neu y mae gan eu cartrefi sgôr tystysgrif perfformiad ynni (EPC) isel.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 0808 808 2244**
**Gwefan: llyw.cymru/cynllun-cartrefi-cynnes-nyth**
**X: @NythCymru**
**Facebook: facebook.com/NestWales/**





# Yr amgylchedd a chefn gwlad

Mae'r adran hon yn rhestru grantiau a ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau amgylcheddol a chefn gwlad, fel bioamrywiaeth, cadwraeth natur neu brosiectau treftadaeth.

## Cynlluniau buddsoddi gwledig Llywodraeth Cymru

Cyn y newid i'r polisi amaethyddol newydd (y Cynllun Ffermio Cynaliadwy), mae cynlluniau buddsoddi gwledig dros dro ar gael i ffermwyr yn 2025 i wella'r amgylchedd ar eu ffermydd. Mae manylion y cynlluniau hyn ar gael yn llyfryn Llywodraeth Cymru. **Cynllun Cymorth Amlflwyddyn ar gyfer Amaethyddiaeth 2025-2029.**

## Grantiau/rhaglenni Llywodraeth Cymru er mwyn i gymunedau gefnogi natur.

Mae'r rhaglen **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** wedi'i hanelu at gymunedau a sefydliadau cymunedol i adfer natur yn eu hardaloedd lleol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.

Nod y **Gronfa Rhwydweithiau Natur** yw gwella cyflwr a chysylltedd rhwydwaith y safleoedd gwarchodedig.

Nod **Natur am byth** yw amddiffyn rhywogaethau sydd o dan fygythiad.

## Gwobr Biffa

Mae Gwobr Biffa yn darparu cymorth i brosiectau cymunedol ger safleoedd tirlenwi.

Darperir cyllid o dan y prif gynllun grantiau (rhwng £10,000 a £75,000) o dan themâu; un o'r themáu hynny yw ailddatblygu bioamrywiaeth.

Mae cyllid mwy (rhwng £250,000 ac £1 miliwn) ar gael o dan y **cynllun Grantiau Partneriaeth.** Dylai prosiectau cymwys naill ai wella'r amgylchedd adeiledig, e.e.

canolfannau diwylliannol, treftadaeth neu ymwelwyr neu wella'r amgylchedd naturiol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 01636 670000**
**E-bost:** **biffa-award@wildlifetrusts.org**
**Gwefan:** **www.biffa-award.org**
**X** **@BiffaAward**

## Ymddiriedolaeth Ernest Cook

Mae Ymddiriedolaeth Ernest Cook yn rhoi grantiau i elusennau cofrestredig, ysgolion y wladwriaeth a chyrff dielw sy'n ceisio ennyn diddordeb pobl ifanc yng nghefn gwlad a'r amgylchedd.

Mae prosiectau sy'n hybu neu'n sicrhau parhad sgiliau a chrefftau cefn gwlad o ddiddordeb arbennig i'r Ymddiriedolwyr.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu amryw o gynlluniau grantiau drwy gydol y flwyddyn.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 01285 712492**
**E-bost:** **hello@ernestcooktrust.org.uk**
**Gwefan:** **www.ernestcooktrust.org.uk**

## Sefydliad Garfield Weston

Elusen sy'n dyrannu grantiau i elusennau cofrestredig yn y DU yw Sefydliad Garfield Weston. Bydd y Sefydliad hefyd yn ystyried ceisiadau gan nifer cyfyngedig o gyrff sydd wedi'u heithrio, gan gynnwys:

- eglwysi;
- sefydliadau addysgol; ac
- ysbytai a chorfforaethau tai.

Mae'r Sefydliad yn cefnogi ystod o brosiectau amgylchedd sy'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion penodol a gwaith cadwraeth gweithredol, a dod o hyd i atebion iddynt.

**I gael rhagor o wybodaeth:**





**Ffôn: 02073 996565**
**E-bost:** **admin@garfieldweston.org**
**Gwefan:** **www.garfieldweston.org**
**X:@WestonFdn**

## Ymddiriedolaeth Elusennol Jephcott

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Jephcott yn rhoi grantiau i elusennau cofrestredig a chyrff â chyfansoddiad yn y DU.

Mae'r grantiau ar gael i helpu cyrff i gychwyn ar eu gwaith neu i gymryd camau pendant i roi prosiectau ar waith a fydd yn gwneud gwahaniaeth o dan un o bedair prif flaenoriaeth yr Ymddiriedolaeth:

- rheoli'r boblogaeth;
- yr amgylchedd naturiol;
- addysg; neu
- iechyd.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Gwefan:** **www.jephcottcharitabletrust.org.uk**

## Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Rhaglen ariannu gan Lywodraeth Cymru yw Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r cynllun yn cefnogi prosiectau amgylcheddol a chymunedol mewn ardaloedd yr effeithir arnynt gan waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi. Mae'n cynnig prif grantiau o £5,000 – £49,999 ar gyfer prosiectau sy'n bodloni'r meini prawf.

Gall Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ddyfarnu grant i un prosiect o bwys cenedlaethol y flwyddyn – gwerth rhwng £50,000 a £250,000.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Gwefan:** **www.wcva.cymru/cy/cyllid/cynllun-cymunedau-y-dreth-gwarediadau-tirlenwi/**
**E-bost:** **ldtgrants@wcva.cymru**

## Ymddiriedolaeth Elusennol Marsh

Nod Ymddiriedolaeth Elusennol Marsh yw darparu cyllid craidd hirdymor i sefydliadau bach. Mae'r grantiau yn amrywio o £300 i £2,000. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ariannu yn y meysydd canlynol:

- y celfyddydau a threftadaeth;
- addysg a hyfforddiant;
- achosion amgylcheddol a lles anifeiliaid;
- gofal iechyd; a
- lles cymdeithasol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 020 7233 3112**
**Gwefan: https://www.marshcharitabletrust.org/**
**E-bost: mccarthy@bpmarsh.co.uk**
**X:@MarshAwards**

## Sefydliad Matthew Good

Mae Sefydliad Matthew Good yn ariannu prosiectau gan grwpiau cymunedol lleol, elusennau, grwpiau gwirfoddol neu fentrau cymdeithasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar gymunedau, pobl neu'r amgylchedd. Gellir gwneud ceisiadau drwy gydol y flwyddyn gyda grantiau'n cael eu dyfarnu bob tri mis lle mae £15,000 yn cael ei rannu rhwng pum prosiect ar y rhestr fer.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Gwefan: www.matthewgoodfoundation.org/grantsforgood/**
**E-bost: info@matthewgoodfoundation.org**
**X:@MatthewGoodFoun**

## Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm yn darparu grantiau i sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru sy'n cefnogi: chwaraeon, celf, y gymuned a'r amgylchedd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu ceisiadau sy'n ymwneud â nifer o themâu, gan gynnwys:

- ailgylchu;



**Canllaw i etholwyr:** Prosiectau ynni, yr amgylchedd a chefn gwlad

- hyrwyddo arferion gwyrdd;
- hyrwyddo cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus;
- gwella / diogelu'r amgylchedd; a
- threftadaeth naturiol Cymru.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 02920 022143**
**E-bost: info@millenniumstadiumtrust.org.uk**
**Gwefan: https://www.millenniumstadiumtrust.org.uk/**

## Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Mae cangen Cymru o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (sef yr hen Gronfa'r Loteri Fawr) yn darparu arian ar gyfer amrywiaeth o wahanol brosiectau sy'n cyflawni'r blaenoriaethau polisi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r wefan yn cynnwys **rhestr o'r holl raglenni cyllido** y gellir ei hidlo, a sefydlwyd i alluogi unigolion a grwpiau cymunedol i ddod o hyd i gyllid yn hawdd ar gyfer amrywiaeth o wahanol brosiectau.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 029 2168 0214**
**E-bost: wales@tnlcommunityfund.org.uk**
**Gwefan: www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/wales**
**X:@TNLComFund**

## Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau sy'n cynnal ac yn trawsnewid treftadaeth y DU gan gynnwys treftadaeth amgylcheddol.

Mae'r wefan yn rhestru **rhaglenni cyllid agored,** ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gyllid ar gyfer sefydliadau yng Nghymru.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 029 2034 3413**

**E-bost:** **walescontact@heritagefund.org.uk**
**Gwefan:** **www.heritagefund.org.uk/cy**
**X:@HeritageFundUK**

## Ymddiriedolaeth Naturesave

Mae Ymddiriedolaeth Naturesave yn cynorthwyo grwpiau amgylcheddol a grwpiau cadwraeth yn y DU. Mae grantiau ar gael i ariannu prosiectau sy'n ymdrin â materion penodol yn ymwneud â'r amgylchedd a/neu gadwraeth, ac sy'n annog mwy o bobl i fabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy at ddibenion masnachol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 01803 864390**
**E-bost:** **mail@naturesave.co.uk**
**Gwefan:** **www.naturesave.co.uk/naturesave-trust/**

## Sefydliad Grantiau Bach Rufford

Mae Sefydliad Grantiau Bach Rufford yn rhoi **cymorth ariannol** i grwpiau bach ac unigolion yng Nghymru a Lloegr sy'n ymwneud â phrosiectau cadwraeth natur mewn gwledydd sy'n datblygu.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** **Ffurflenni ar-lein**
**Gwefan:** **www.rufford.org**
**X:** **@ruffordgrants**

## Ymddiriedolaethau Elusennol Teulu Sainsbury

Mae Ymddiriedolaethau Elusennol Teulu Sainsbury yn rhoi cymorth ariannol i gefnogi amryw fuddiannau, gan gynnwys prosiectau amgylcheddol.

Mae rhestr o'r **ymddiriedolaethau** ar gael ar y wefan.

**I gael rhagor o wybodaeth:**





**Ffôn: 020 7410 0330**
**E-bost:** **info@sfct.org.uk**
**Gwefan:** **www.sfct.org.uk**

## Sea-Changers

Mae Sea-Changers yn rhoi grantiau i amrywiaeth o elusennau cadwraeth morol a sefydliadau dielw yn y DU. Mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn prosiectau llawr gwlad sy'n ysgogi gweithredu cymunedol, a phrosiectau sy'n cynyddu nifer y bobl sy'n gweithredu ar ran cadwraeth forol.

Dylai'r prosiectau a ariennir gyflawni un neu fwy o'r amcanion a ganlyn:

- Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol bygythiadau a heriau cadwraeth forol yn y DU;
- Atal neu leihau effeithiau negyddol ar amgylcheddau arfordirol a morol a/neu rywogaethau'r DU; ac
- Ychwanegu at y corff o wybodaeth ynghylch bygythiadau a heriau cadwraeth forol yn y DU.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 07909 897867**
**Gwefan:** **www.sea-changers.org.uk/grants**
**E-bost:** **info@sea-changers.org.uk**
**X:** **@BeASeaChanger**

## Ymddiriedolaeth Arddwriaethol Stanley Smith (DU)

Mae Ymddiriedolaeth Arddwriaethol Stanley Smith (DU) yn rhoi cymorth ariannol i brosiectau sy'n ymwneud ag ymchwil garddwriaethol, creu, diogelu a chynnal a chadw gerddi cyhoeddus, cyhoeddi llyfrau am arddwriaeth, ymweliadau astudio, teithiau i gasglu planhigion a chynlluniau hyfforddi i arddwyr.

Mae grantiau'n amrywio o ychydig gannoedd o bunnoedd i tua £5,000 ond fel arfer maent tua £3,000-£4,000. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnig nifer o brentisiaethau garddwriaethol bob blwyddyn.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 01312 482954**
**E-bost:** **d.rae@rbge.org.uk**
**Gwefan:** **www.grantsforhorticulturists.org.uk**

## Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Veolia

Mae Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Veolia yn rhoi cymorth i brosiectau amgylcheddol a chymunedol yn y DU sydd o fewn pum milltir o gyfleuster cymwys a gaiff ei weithredu gan Veolia Environmental Services (UK) plc.

Rhaid i brosiectau ymwneud ag adfer tir diffaith, atal llygredd, darparu amwynderau cyhoeddus neu hybu bioamrywiaeth.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 020 3567 6820**
**E-bost:** **UK.Trust@veolia.com**
**Gwefan:** **www.veoliatrust.org**
**X:** **@veoliaenvtrust**

## Sefydliad Waterloo

Mae Sefydliad Waterloo yn sefydliad rhoi grantiau annibynnol, gyda diddordeb mewn prosiectau sy'n helpu yn fyd-eang, gan ganolbwyntio'n benodol ar y gwahaniaeth mewn cyfleoedd, cyfoeth a'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol y byd. Drwy ei **Gronfa'r Amgylchedd,** mae cymorth grant ar gael ar gyfer prosiectau sy'n gweithio i atal dirywiad stociau pysgod a chefnogaeth i brosiectau sy'n amddiffyn coedwigoedd glaw trofannol, yn bennaf drwy osgoi datgoedwigo.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn: 02920 838980**
**E-bost:** **info@waterloofoundation.org.uk**
**Gwefan:** **www.waterloofoundation.org.uk**

## Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru

Mae Dŵr Cymru yn ariannu grantiau gwerth hyd at £5,000 sy'n helpu sefydliadau dielw, gan gynnwys elusennau, cymdeithasau tai ac ysgolion, i ddarparu prosiectau





cymunedol. Mae gweithgareddau y mae ganddynt amcanion amgylcheddol yn gymwys i gael cyllid. Gallai gweithgareddau o'r fath gynnwys gwneud gwelliannau uniongyrchol yn yr ardal leol, neu weithgareddau addysgol sy'n hyrwyddo materion amgylcheddol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Gwefan:** **corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/community-fund**

# Cymorth gan awdurdodau lleol

Gall awdurdodau lleol ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau yn eu hardal. Gall y cymorth amrywio, felly dylai unigolion gysylltu â'u hawdurdod lleol perthnasol i gael gwybod pa gyllid sydd ar gael.

- Cyngor Blaenau Gwent
  **Ffôn: 01495 311556**
  **E-bost: info@blaenau-gwent.gov.uk**
  **Gwefan: www.blaenau-gwent.gov.uk**
- Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
  **Ffôn: 01656 643643**
  **E-bost: talktous@bridgend.gov.uk**
  **Gwefan: https://www.penybontarogwr.gov.uk/preswylwyr/**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
  **Ffôn: 01443 815588**
  **E-bost: gwybodaeth@caerffili.gov.uk**
  **Gwefan: www.caerffili.gov.uk**
- Cyngor Caerdydd
  **Ffôn: 02920 872088 (Cymraeg), 02920 872087 (Saesneg)**
  **E-bost:Ffurflen ymholiad**
  **Gwefan: www.caerdydd.gov.uk**
- Cyngor Sir Caerfyrddin
  **Ffôn: 01267 234567**
  **E-bost: galw@sirgar.gov.uk**
  **Gwefan: www.sirgar.llyw.cymru**
- Cyngor Sir Ceredigion
  **Ffôn: 01545 570881**
  **E-bost: clic@ceredigion.gov.uk**
  **Gwefan: www.ceredigion.gov.uk**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
  **Ffôn: 01492 574000**
  **E-bost: gwasanaethau.cwsmeriaid@conwy.gov.uk**
  **Gwefan: www.conwy.gov.uk**



**Canllaw i etholwyr:** Prosiectau ynni, yr amgylchedd a chefn gwlad

- Cyngor Sir Ddinbych
  **Ffôn: 01824 706000**
  **E-bost:Ffurflen ymholiad**
  **Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk**
- Cyngor Sir y Fflint
  **Ffôn: 01352 752121**
  **E-bost:Ffurflen ymholiad**
  **Gwefan: www.siryfflint.gov.uk**
- Cyngor Gwynedd
  **Ffôn: 01766 771000**
  **E-bost:Ffurflen ymholiad**
  **Gwefan: www.gwynedd.gov.uk**
- Cyngor Sir Ynys Môn
  **Ffôn: 01248 750057**
  **E-bost: cyswlltmon@ynysmon.gov.uk**
  **Gwefan: www.ynysmon.gov.uk**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
  **Ffôn: 01685 725000**
  **E-bost: gwasanaethauigwsmeriaid@merthyr.gov.uk**
  **Gwefan: www.merthyr.gov.uk**
- Cyngor Sir Fynwy
  **Ffôn: 01633 644644**
  **E-bost: contact@monmouthshire.gov.uk**
  **Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
  **Ffôn: 01639 686868**
  **E-bost: contactus@npt.gov.uk**
  **Gwefan: www.npt.gov.uk**
- Cyngor Dinas Casnewydd
  **Ffôn: 01633 656656**
  **E-bost: info@newport.gov.uk**
  **Gwefan: https://www.casnewydd.gov.uk/**
- Cyngor Sir Penfro
  **Ffôn: 01437 764551**
  **E-bost: ymholiadau@sir-benfro.gov.uk**
  **Gwefan: www.sir-benfro.gov.uk**

- Cyngor Sir Powys
  **Ffôn: 01597 827460**
  **E-bost: customerservices@powys.gov.uk**
  **Gwefan: www.powys.gov.uk**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
  **Ffôn: 01443 425005**
  **E-bost:Ffurflen ymholiad**
  **Gwefan: www.rctcbc.gov.uk**
- Dinas a Sir Abertawe
  **Ffôn: 01792 636000**
  **E-bost: cyswllt@abertawe.gov.uk**
  **Gwefan: www.abertawe.gov.uk**
- Cyngor Bro Morgannwg
  **Ffôn: 01446 700 111**
  **E-bost:Ffurflen ymholiad**
  **Gwefan: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
  **Ffôn: 01495 762200**
  **E-bost: calltorfaen@torfaen.gov.uk**
  **Gwefan: www.torfaen.gov.uk**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
  **Ffôn: 01978 292000**
  **E-bost:Ffurflen ymholiad**
  **Gwefan: www.wrecsam.gov.uk**





# Cynghorau gwirfoddol sirol

Mae cynghorau gwirfoddol sirol yn gweithio ar lefel leol ac yn darparu cyngor a gwybodaeth ar ystod o faterion, gan gynnwys ffynonellau cyllid.

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
  **Ffôn: 01633241550**
  **E-bost: info@gavo.org.uk**
  **Gwefan: www.gavowales.org.uk**
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
  **Ffôn: 01656 810400**
  **E-bost: bavo@bavo.org.uk**
  **Gwefan: https://www.bavo.org.uk/cy/**
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
  **Ffôn: 029 2048 5722**
  **E-bost: enquiries@c3sc.org.uk**
  **Gwefan: https://c3sc.org.uk/#**
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
  **Ffôn: 01267 245555**
  **E-bost: admin@cavs.org.uk**
  **Gwefan: https://cavs.org.uk/?lang=cy**
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
  **Ffôn: 01570 423232**
  **E-bost: gen@cavo.org.uk**
  **Gwefan: https://cavo.org.uk/**
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
  **Ffôn: 01492 534091**
  **E-bost: mail@cvsc.org.uk**
  **Gwefan: www.cvsc.org.uk**
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
  **Ffôn: 01824 702441**
  **E-bost: office@dvsc.co.uk**
  **Gwefan: https://www.dvsc.co.uk/cy/**
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
  **Ffôn: 01352 744000**
  **E-bost: info@flvc.org.uk**
  **Gwefan: https://www.flvc.org.uk/cy/hafan/**

- Mantell Gwynedd
  **Ffôn: 01286 672626**
  **E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com**
  **Gwefan: www.mantellgwynedd.com**
- Ynys Môn - Medrwn Môn
  **Ffôn: 01248 724944**
  **E-bost: post@medrwnmon.org**
  **Gwefan: https://www.medrwnmon.org/cy**
- Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
  **Ffôn: 01685 353900**
  **E-bost: enquiries@vamt.net**
  **Gwefan: https://vamt.net/cy/**
- Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot
  **Ffôn: 01639 631246**
  **E-bost: info@nptcvs.org.uk**
  **Gwefan: https://www.nptcvs.wales/**
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
  **Ffôn: 01437 769422**
  **E-bost: enquiries@pavs.org.uk**
  **Gwefan: https://www.pavs.org.uk/cy/**
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
  **Ffôn: 01597 822191**
  **E-bost: Ffurflen ymholiad**
  **Gwefan: https://www.pavo.org.uk/cy/**
- Rhondda Cynon Taf - Interlink
  **Ffôn: 01443 846200**
  **E-bost: info@interlinkrct.org.uk**
  **Gwefan: https://interlinkrct.org.uk/cy/**
- Cyngor y Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
  **Ffôn: 01792 544000**
  **E-bost: scvs@scvs.org.uk**
  **Gwefan: www.scvs.org.uk**
- Cynghrair Gwirfoddol Torfaen
  **Ffôn: 01495 365610**
  **E-bost: info@tvawales.org.uk**
  **Gwefan: www.tvawales.org.uk**





- Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
  **Ffôn: 01446 741706**
  **E-bost: Ffurflen ymholiad**
  **Gwefan: https://www.gvs.wales/**
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
  **Ffôn: 01978 312556**
  **E-bost: info@avow.org**
  **Gwefan: www.avow.org**

